CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CYFARFOD RHAGFYR 12, 2023

www.cyngorllanelltyd.cymru

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref, Llanelltyd
Nos Fawrth, Rhagfyr 12, 2023 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Simon Evans (Cadeirydd), Elfed ap Gomer, Geraint Rowlands, Llinos Rowlands, Eleri Jones a Gareth Ellis. Hefyd Henry M. Edwards a Cyng. Delyth Lloyd Griffiths .

Cafodd Elfed ei longyfarch ar ddod yn daid.

1. Ymddiheuriadau: Llinos Williams a Gwenan Owen.

2. Datgan diddordeb:

Doedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Tachwedd 14, 2023

Cynigwyd y cofnodion gan Eleri Jones ac eilwyd gan Geraint Rowlands.

4. Materion yn codi o'r cyfarfod Tachwedd 14, 2023

Eitem 12.a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri bod amryw o drigolion Bontddu yn bryderus am gyflwr adeilad Halfway House Hotel a'r tir o'i amgylch ac iddynt roi sylw i'r mater.

Penderfynwyd hefyd i Delyth wneud ymoliadau beth yw'r dreth ar yr adeilad.

Eitem 12.b. Penderfynwyd anfon llythyr i Coed Cadw (fel roedd angen ac nid i Cyfoeth Naturiol Cymru) yn rhoi gwybod fod y Cyngor yn siomedig ni chafodd y cyfle i roi barn ar y llwybr. Hefyd, ni fuodd cysylltiad efo'r ffarmwr sy'n defnyddio'r tir y llwybr. Roedd barn bod y beicwyr yn amharchus i'r bobl sy'n defnyddio'r ffordd sydd yn gul.

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (21/11/2023) oddi wrth Cyllid, Cyngor Gwynedd. Maent angen gwybod ein praesept am 2024 / 2025. Maent angen y wybodaeth erbyn dydd Gwener, Ionawr 26, 2024.

Praespet 2023/2024 yw £7,500.00. Mae Praespet £7,500.00 wedi bod ers 2017-2018.

Anfonwyd gwybodaeth yn awgrymu praesept i'r aelodau.

Penderfynwyd codi'r prasept i £10,000.

b. Llythyr (5/12/2023) oddi wrth Urdd Gobaith Cymru. Maent angen cymorth ariannol tuag at eu hapêl Cronfa Cyfle i Bawb – cronfa sy'n rhoi gwyliau am ddim i blant a phobl ifanc difreintiedig Cymru.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

c. Balans yn y banc ar 29/11/2023: £10,526.63.

6. Archwilio

7. Mynwent Llanelltyd

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais Cynllunio NP5/65/14Q. Gosod 2 pod campio. Bryn Du, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

b. Cais cynllunio NP5/65/259A. Lleoli 3 pod a 2 babell saffari, codi bloc toiledau/cawodydd newydd, gosod uned trin carthion a lle parcio cysylltiedig. Cesailgwm Mawr, Bontddu.

Penderfynwyd gwrthod y cais oherwydd:

Mae'r cais fel y mae yn codi nifer o gwestiynau, ond dydy o ddim yn eu hateb:

- Fel gyda cheisiadau eraill yn y gorffennol, codir cwestiwn y twf mewn trafnidiaeth ar hyd ffordd y Cwm. Mae potensial gan y datblygiad hwn i gynyddu'r nifer o gerbydau'n sylweddol.

- Does gan y ffordd o'r grid gwartheg i fyny at y safle yr un man pasio. Oni bai fod gennych gerbyd 4x4, gallai gorfod mynd ar y tirglas fod yn broblemus, yn enwedig mewn tywydd gwlyb. Mae nifer o bobl yn defnyddio'r ffordd eisoes: mae mynd a dod cyson gan drigolion a pherchnogion Ceseilgwm Mawr, Ceseilgwm Bach a Foel Ispri Uchaf, ac mae ymwelwyr niferus angen mynediad at faes parcio Parc Cenedlaethol Eryri, yn enwedig yr anabl. Caiff ei defnyddio'n ogystal gan amaethwyr sydd am fynediad i'w tiroedd.

- Gyda llaw, a ydy'n gywir i gyfeirio at leoliad y datblygiad fel 'Ceseilgwm Mawr'? Does gan y cais ddim i'w wneud â thrigolion a pherchnogion Ceseilgwm Mawr.

- Does dim cyfeiriad manwl at nifer y mannau parcio cerbyd/au ar y safle. Petai

pob unigolyn sydd â lle i gysgu mewn pod neu yn y pebyll yn dod â'i gerbyd ei hun, byddai angen lle i 14 car.

- Does dim cyfeiriad at unrhyw ffynhonnell o ddŵr a'r modd y bydd echdynnu cyflenwad. A fyddai'r echdyniad yn effeithio ar gyflenwad pobl eraill cyfagos?

- A fydd y tanc a ddangosir yn y cynllun yn cael ei ddefnyddio i storio dŵr yfed, dŵr i'r bloc toiled a chawod yn ogystal ag i'r offer trin dŵr?

- Yn olaf, mae'r ddarpariaeth ar gyfer gwaredu gwastraff domestig trigolion y Cwm, sydd wedi'i leoli ar y gornel rhwng Min Awel a Chapel Soar, eisoes yn fwy na llawn yn aml. Pa ddarpariaeth sydd yn y cynllun hwn ar gyfer gwaredu sbwriel y safle?

Mae angen atebion i'r cwestiynau hyn cyn caniatáu'r cynllun.

9. Gohebiaeth

a. Llythyr (22/11/2-23) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod:

1. bydd gwaith yn cael ei wneud yn Llanelltyd gan Tim Tacluso Ardal Ni yn 4-8/12/2023.

2. bydd gwaith newid pont a canllaw yn cael ei wneud ar Lwybr 38, hen gwrs golff.

b. Llythyr (28/11/2023) oddi wrth Diolch am 20mya yn rhoi gwybodaeth ar ddiweddaraf ar y rheol 20mya ar ein ffyrdd.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Heddlu mae angen cerbyd Gan Bwyll i wylio cyflymder traffig sy'n mynd heibio Ysgol Llanelltyd ar yr A496.

c. Llythyr (6/12/2023) oddi wrth Tim Tacluso Ardal Ni yn rhoi manylion linc i'r Tim i gael gwybod eu hymweliad i'r ardal a sut i greu ceisiadau am waith drwy lenwi holiadur ar http:www.gwynedd.llyw.cymru/timtacluso

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

10. Bioamrywiaeth

11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths

CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CYFARFOD RHAGFYR 12, 2023

a. Llythyr (20/11/2023) oddi wrth Swyddog Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae Cymuned Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru yn rhoi cyfle i ariannu prosiectau cymunedol. Maent angen ceisiadau cyn 11/12/2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Parthed: Mater cyflymder ceir yn ardal cylch fan Llanelltyd i fyny at Bro Cymer.
Gan mod i wedi methu cael llawer o drafodaethau gyda Adran Cefnffyrdd, yr wyf wedi cyfeirio y mater yma at Mabon ap Gwynfor ar gyfer cael ei gymorth yn y mater yma. Senedd Cymru sydd yn gyfrifol am Cefnffyrdd.
Byddaf yn parhau i gydweithio gyda Mabon yn hyn o beth.
Cafwyd cyfarfod ar y safle gyda Mr Owain Peredur Jones, Swyddog gyda Asiant Cefnffyrdd Gogledda Chanolbarth Cymru.

1.Coed y Brenin – bygythiad i gau y ganolfan ymwelwyr. Darllenwyd llythyr i Mabon ap Gwynfor oddi wrth Martin Cox. Prif Swyddog Gogledd Cymru yn Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae yn bosib y bydd 20 o swyddi lleol yn cael ei colli. Mae Delyth a Mabon am ofyn am y sefyllfa ariannol y lleoliad yn dilyn argymhellion y cyngor cymuned.

2.Materion Ffyrdd – trafodwyd y mater 20 milltir yr awr yn Llanelltyd a Bontddu. Cytunwyd i'r Clerc anfon gwybod fod angen fan "Arrive Alive" i ddod I ardal yr ysgol yn Llanelltyd.
Dywedodd Delyth y byddai modd trafod ardal Bontddu gyda cyngor Gwynedd yn Chwefror 2024 gan fod y Swyddog wedi rhoi adroddiad ei fod yn cadw llygad ar y lleoliad yma.
Mae Delyth wedi trafod cyflymdra wrth Bro Cymer ac o'r cylch fan gyda adran y Cefnffyrdd a wedi cael e bost y swyddog perthnasol yn Llywodraeth Cymru sydd yn gyfrifol am y ffordd yma. Mae y mater wedi mynd at Mabon ap Gwynfor am gymorth.

3.Materion y cyngor Sir. Bu i Delyth gael y cyfle i ofyn cwestiwn am feddygol teulu De Meirionnydd mewn Cyfarfod llawn or Cyngor yn ddiweddar. Dyfed Edwards yw Cadeirydd Betsi Cadwaladr ar hyn o bryd. Yr ateb oedd fod trafferthion mawr i recriwtio meddygon yn gyffredino la fod yr Awdurdod iechyd yn ceisio cael staff eraill ar lefel uchel yn lle meddygon.

4.Neuadd Bontddu wedi derbyn £75000 o grant o gronfa y Loteri Cenedlaethol ar gyfer gwella adnoddau yn neuadd. Delyth wedi rhoi y gwybodaeth iddynt i wneud hyn.

5.Cyfoeth Naturiol Cymru ddim yn ymateb i E bost y Cynghorydd am fatresi yn Hengwrt Llanelltyd .Mae hi wedi cysylltu a Martin Cox yn Cyfoeth Gogledd cymru yn ddiweddar.

6.Bontddu Hall. Delyth mewn cysylltiad a Aled Lloyd yn y Parc am y datblygiad fydd o flaen y Parc yn Ionawr neu Mawrth 2023.

7.Halfway Bontddu. Cytunodd Delyth i ofyn yn y Cyngor beth oedd statws Treth y cyngor y lleoliad.

8.Grantiau Busnes Cyngor Gwynedd ar gael ar hyn o bryd. Lindsey Ellis Edwards a Huw Antur a Anna Lewis yn swyddogion yn gyfrifol am rhain.

Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd
Newyddion diweddaraf: 5 Hydref 2023
Mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynu ymrwymo £300,000 yn ychwanegol o arian SPF i'r Gronfa Cefnogi Adfywio a'r Cronfeydd Datblygu Busnes mewn ymateb i'r galw.
Close

Mae Cyngor Gwynedd, gyda help partneriaid lleol, wedi dewis 39 prosiect o bob cwr o Wynedd i dderbyn arian yn uniongyrchol o'r £24.4 miliwn mae'r sir yn ei dderbyn o Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) y DG.
Gellir darllen manylion pob prosiect o dan tri blaenoriaeth yr SPF isod:

- **Cymunedau a Lle**
- **Cefnogi Busnesau Lleol**
- **Pobl a Sgiliau**

Roedd y ceisiadau llwyddiannus yn cynnwys sefydlu nifer o gronfeydd i ddyrannu symiau llai o arian SPF i gefnogi mentrau a chymunedau Gwynedd:

- Cronfa Cefnogi Adfywio
- Cronfeydd Cefnogi Diwylliant a Threftadaeth, Digwyddiadau a Byw'n Iach ac Actif
- Cronfa Cefnogi'r Sector Wirfoddol
- Grant Gwella Eiddo Ganol Tref
- Cronfeydd Datblygu Busnes

Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG

Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd

Cyflawni'r Gronfa yng Ngwynedd
Er mwyn lleihau costau a chymhlethdod, mae Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru yn gweithio gyda'u gilydd i weinyddu'r Gronfa.
Yn ystod Ionawr a Chwefror 2023 roedd cyfle i unrhyw sefydliad yn dymuno cael dros £250,000 o arian SPF gyflwyno cais amlinellol. Yng Ngwynedd derbyniwyd 114 o geisiadau gan gynlluniau yn gofyn am dros £51 miliwn o arian SPF. Ar sail asesiad o'r ceisiadau, a sylwadau Grŵp Ymgynghorol Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd, ym mis Mai 2023 dewisodd Cyngor Gwynedd wahodd 47 o gynlluniau i gyflwyno cais manwl am arian.

- Y drefn ymgeisio
- Y drefn o ddewis prosiectau

Ni ragwelir y bydd cyfle eto i gyflwyno ceisiadau eto am dros £250,000 o arian SPF yng Ngwynedd.

Yn dilyn derbyn ac asesu'r ceisiadau manwl yn drylwyr, ar 20 Gorffennaf, 2023 cytunodd Cabinet Cyngor Gwynedd gynnig £21.96 miliwn o arian SPF Gwynedd i 39 cynllun. Gweld Rhaglen y Cabinet.

Ble mae'r arian yn cael ei wario?
Mae cyfanswm o £21,957,249 o arian SPF Gwynedd bellach wedi ei ymrwymo i 39 o brosiectau.
Mae 29 o'r prosiectau yn gweithredu yng Ngwynedd yn unig, a 10 prosiect yn gweithredu ar draws ardal ehangach.
Mae'r dosbarthiad cynlluniau rhwng blaenoriaethau buddsoddi'r SPF fel a ganlyn:

- Cymuned a Lle: £12.27 miliwn i 18 prosiect
- Cefnogi Busnes Lleol**:** £5.16 miliwn i 12 prosiect
- Pobl a Sgiliau**:** £4.53 miliwn i 9 prosiect (yn cynnwys £1.28 miliwn o arian Lluosi)

Rhagwelir bydd y pecyn gweithgaredd yn cyflawni canlyniadau sylweddol i drigolion a chymunedau Gwynedd gan gynnwys:

- Darparu cymorth ariannol i **961** o fusnesau, mentrau a sefydliadau'r sir
- Cefnogi **400** o drigolion lleol i wella eu sgiliau rhifedd
- Helpu **3,100** o gartrefi i arbed ynni
- Cefnogi creu neu ddiogelu **292** o swyddi yn y sir
- Helpu **728** o bobl Gwynedd sicrhau cymhwyster
- Cynorthwyo **172** o drigolion lleol gyda heriau iechyd i ddychwelyd i waith

Gellir darllen manylion pob prosiect o dan tri blaenoriaeth yr SPF isod:

- **Cymunedau a Lle**
- **Cefnogi Busnesau Lleol**
- **Pobl a Sgiliau**

Cysylltwch â ni
I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: FfyniantBroDU@gwynedd.llyw.cymru
I ddysgu mwy am y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru ymwelwch â: Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gogledd Cymru

12. Materion Aelodau

a. Dyfodol y Clerc. Mae'r aelodau yn gwneud ymdrech i gael Clerc newydd.